



# Cylchlythyr Wythnosol YGG Bryniago Weekly Newsletter


[www.ysgolbryniago.co.uk](http://www.ysgolbryniago.co.uk)

Wythnos yn dechrau/ Week commencing: 01.12.2025



@YsgolBryniago

Llun/Mon	Mawrth/Tue	Mercher/Wed	Iau/Thu	Gwener/Fri
01	02	03	04	05
Gwersi telyn/ Harp lessons: Ms Yasmin Richards	10:00 Cyngerdd Nadolig y Meithrin/ Nursery Christmas concert  Sioe Brenin March-Theatr y Ffwrnes  Gwersi llinynnol/ Violin/ Cello lessons: Mrs Kathryn Bott	10:00 Cyngerdd Nadolig y Meithrin/ Nursery Christmas concert  Bl.4- gwersi nofio wythnosol ym Mhenrheol/ Weekly swimming lessons for Year 4 in Penrheol.	10:00 Cyngerdd Nadolig y Derbyn/ Reception Christmas concert  Gwersi pres/ chwythbrennau/ Brass/ woodwind lessons: Mr William Bott  Ffair Nadolig Bryniago/ Bryniago Christmas fayre	14:00 Cyngerdd Nadolig y Derbyn/ Reception Christmas concert



AMDDIFFYFN PLANT:RHAID cysylltu gyda'r ysgol os yw'ch plentyn yn absennol.  
CHILD PROTECTION: You MUST contact the school if your child is absent-  
Day1/3/5 ☎ 01792 882012

Mae cymryd gwyliau yn ystod y tymor yn effeithio ar addysg eich plentyn ac yn tynnu presenoldeb yr ysgol i lawr .

Taking holidays during school term affects your child's education and has a big impact on school attendance.

## Dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgolion 2025 / 2026

Tymor	Tymor yn dechrau	Gwyliau hanner tymor - dechrau	Gwyliau hanner tymor - gorffen	Tymor yn gorffen
Yr Hydref 2025	Dydd Llun 1 Medi 2025	Dydd Llun 27 Hydref 2025	Dydd Gwener 31 Hydref 2025	Dydd Gwener 19 Rhagfyr 2025
Y Gwanwyn 2026	Dydd Llun 5 Ionawr 2026	Dydd Llun 16 Chwefror 2026	Dydd Gwener 20 Chwefror 2026	Dydd Gwener 27 Mawrth 2026
Yr Haf 2026	Dydd Llun 13 Ebrill 2026	Dydd Llun 25 Mai 2026	Dydd Gwener 29 Mai 2026	Dydd Llun 20 Gorffennaf 2026

## School term and holiday dates 2025 / 2026

Term	Term begins	Mid-term holiday begins	Mid-term holiday ends	Terms ends
Autumn 2025	Monday 1 September 2025	Monday 27 October 2025	Friday 31 October 2025	Friday 19 December 2025
Spring 2026	Monday 5 January 2026	Monday 16 February 2026	Friday 20 February 2026	Friday 27 March 2026
Summer 2026	Monday 13 April 2026	Monday 25 May 2026	Friday 29 May 2026	Monday 20 July 2026

HMS/ Inset 1	*HMS/ Inset 2	*HMS/ Inset 3	*HMS/ Inset 4	*HMS/ Inset 5	*HMS/ Inset 6
01.09.25	02.09.25	05.01.26	13.04.26		20.07.26



Dim ond ein gorau glas sy'n ddigon da.

Rhagfyr/ December	Digwyddiad/ Event	Dosbarth/ Class
09.12.25	13:30 Cyngerdd Nadolig Bl.1 a 2/ Year 1 & 2 Christmas concert	Blwyddyn 1 a 2
10.12.25	10:00 Cyngerdd Nadolig Bl.1 a 2/ Year 1 & 2 Christmas concert	Blwyddyn 1 a 2
11.12.25	5:30 Gwasanaeth Nadolig Bryniago Mawr Bryniago Mar's Christmas Service	Bl.3-6
15.12.25 - 19.12.25	Wythnos Dathlu'r Nadolig yn YGG Bryniago/ Christmas week in YGG Bryniago	
22.12.25 - 02.01.26	Gwyliau Nadolig Christmas Holiday	Ysgol gyfan/ Whole school
05.01.26	<b>HMS- YSGOL AR GAU</b> <b>INSET- SCHOOL CLOSED</b>	
09.01.26	Rheoleiddio emosiynau/ Emotional regulation	Rhieni/ Parents 09:15 am
12.01.26	Fluoride varnish	
23.01.26	Emosiynau Mawr (Pryderon)/ Big emotions (anxieties)	Rhieni/ Parents 09:15 am
06.02.26	Emosiynau mawr (dicter)/ Big emotions (anger)	Rhieni/ Parents 09:15 am
27.02.26	Hunan barch a Gwydnwch/ Self esteem and resilience	Rhieni/ Parents 09:15 am
15.01.26	Rheoleiddio emosiynol/ Emotional regulation	Blwyddyn 1-6
29.01.26	5 cam I lesiant/ 5 steps to well-being	Blwyddyn 1-6
12.02.26	Gwydnwch/ resilience	Blwyddyn 1-6
26.02.26	Hunan Barch/ self-esteem	Blwyddyn 1-6

### Diolch yn fawr

Diolch i bawb , rhieni, gofawr a phlant, am gyfrannu at ein casgliad Diolchgarwch eleni. Derbyniwyd nifer o focsys grawnfwyd, ac yr wythnos hon aeth criw o blant yr ysgol â nhw i'r banc bwyd lleol. Diolch enfawr i Gyngor yr Ysgol a'r Cyngor Eco am eu gwaith caled a'u hymrwymiad i gefnogi ein cymuned.

*Thank you to all parents, carers, and children for contributing to our Thanksgiving collection this year. We received a fantastic number of cereal boxes, and this week our School Council and Eco Council members delivered them to the local foodbank. A big thank you to the School Council and Eco Council for their hard work and commitment in supporting our community.*



Dydd Iau, 04.12.2025!!!

Thursday, 04.12.2025!!!



Ysgol Gynradd Bryniago

**FFAIR  
NADOLIG**

DYDD IAU  
RHAGFYR 4YDD 2025  
5:00-7:00YN

DEWCH I YMWELD Â SÎON CORN YN EI GROTO  
STONDINAU CREFFT A STONDINAU BWYD  
GEMAU A GWEITHGAREDDAU  
RAFFLAU NADOLIG  
HAMPERI DOSBARTH  
**CRŴESO CYNNES I DAWD!**




Ysgol Gynradd Bryniago

**CHRISTMAS  
FAIR**

THURSDAY  
DECEMBER 4TH 2025  
5:00PM-7:00PM

VISIT FATHER CHRISTMAS IN HIS GROTO  
CRAFT STALLS AND FOOD STALLS  
GAMES AND ACTIVITIES  
CHRISTMAS RAFFLES  
CLASS HAMPERS  
**A WARM WELCOME TO ALL**



**Hamperi Dosbarth**  
Ysgol Gynradd Bryniago  
2025

Eleni gofynnwn yn garedig am roddion dosbarth i greu ein hamperi lliw blynyddol.

Mae pob dosbarth wedi cael lliw:

- Meithrin - Pinc
- Derbyn - Arian/Llwyd
- Blwyddyn 1 - Glas
- Blwyddyn 2 - Gwyrdd
- Blwyddyn 3 - Porffor
- Blwyddyn 4 - Gwyn
- Blwyddyn 5 - Coch
- Blwyddyn 6 - Oren/aur

Mae tocynnau raffl ar gael drwy ipayimpact.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai rhoddion gyrraedd yr ysgol erbyn Dydd Llun Rhagfyr Iaf

Yn unol â rheolau'r Awdurdod Lleol gofynnwn y gellir sicrhau fod eitemau buwyd wedi selio ac mewn dyddiad.

Rhaid rhoi unrhyw ddiodydd alcoholig i swyddfa'r ysgol.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus - CRA Ysgol Bryniago.



**Class Hampers**  
Ysgol Gynradd Bryniago  
2025

This year we kindly ask for class donations to create our annual colour hampers.  
Every class has been assigned a colour:

- Nursery - Pink
- Reception - Grey/Silver
- Year 1 - Blue
- Year 2 - Green
- Year 3 - Purple
- Year 4 - White
- Year 5 - Red
- Year 6 - Orange/Gold

Raffle tickets are available through ipayimpact.  
We would be grateful if donations could reach school no later than Monday 1<sup>st</sup> December

In line with local Authority rules we ask that food items are sealed in date.

Any alcoholic drinks must be given to the school office.

Thank you for your continued support,  
Ysgol Bryniago PTA



PIC • COLLAGES



# Talentau'r Wythnos

PIC • COLLAGES





# Bwystfilod Bach Yr Wythnos



# Bwystfilod Bach Yr Wythnos





Gwarchodwyr



Bach  
Yr wythnos

PIC•COLLAGE



Gwarchodwyr



Bach  
Yr wythnos

PIC•COLLAGE



# Gweithgareddau'r Wythnos





CWIS DIM CLEM



PIC•COLLAGE



GWEITHDY CYNGOR YSGOL  
CLWSTWR GŴYR

PIC•COLLAGE



Creu siapau

Didoli bwydydd

Blwyddyn 2 yr  
wythnos hon



lacio  
anrhegion



Didoli bwydydd  
yn eu grwpiau  
Bach



PIC•COLLAGE

## Cyngherddau Nadolig YGG Bryniago 2025 Christmas Concerts

Mae'r Nadolig yn brysur agosau! Dyma wybodaeth i chi nodi am ddyddiadau ac amseroedd y sioeau Nadolig ynghyd â gwybodaeth am y tocynnau.

Bydd y tocynnau ar werth **ar iPay o 17.11.2025** ymlaen. Danfonir y tocynnau adref gyda'ch plentyn. Os yw'ch plentyn yn derbyn Prydau Ysgol am Ddim, yna danfonir un tocyn yn rhad ac am ddim atoch (dim i'r dysgwyr sydd wedi eu gwarchod yn drosiannol). Cysylltwch â'r swyddfa os hof-fech wyllo perfformiad arbennig. Gallwch archebu unrhyw docynnau ychwanegol ar iPay.

Cost pob tocyn yw £3.50 . Bydd yr elw o'r cyngherddau yn mynd tuag at ddatblygu'r dosbarthiadau allanol i holl blant yr ysgol.

*Christmas is getting closer! This information is for you to note the dates and times of the Christmas concerts together with information with regards to tickets. Tickets will be on sale on **iPay from 17.11.2025 onwards**. We will send the tickets home with your child. One free ticket will be sent home for those who are eligible for Free School Meals (not the transitionally protected pupils). Please contact the school office if you wish to attend a particular performance. Any additional tickets can be bough via iPay.*

*The cost of every ticket is £3.50 The profit from the concerts will go towards developing the outdoor classrooms for every child within the school.*

<b>02.12.25</b>	Cyngerdd Nadolig y Meithrin/ <i>Nursery Christmas concert</i>	<b>10:00</b>	<b>Neuadd Bryniago Mawr Hall</b>
<b>03.12.25</b>	Cyngerdd Nadolig y Meithrin/ <i>Nursery Christmas concert</i>	<b>10:00</b>	<b>Neuadd Bryniago Mawr Hall</b>
<b>04.12.25</b>	Cyngerdd Nadolig y Derbyn/ <i>Reception Christmas concert</i>	<b>10:00</b>	<b>Neuadd Bryniago Mawr Hall</b>
<b>05.12.25</b>	Cyngerdd Nadolig y Derbyn/ <i>Reception Christmas concert</i>	<b>14:00</b>	<b>Neuadd Bryniago Mawr Hall</b>
<b>09.12.25</b>	Cyngerdd Nadolig Bl.1 a 2/ <i>Year 1 &amp; 2 Christmas concert</i>	<b>13:30</b>	<b>Neuadd Bryniago Mawr Hall</b>
<b>10.12.25</b>	Cyngerdd Nadolig Bl.1 a 2/ <i>Year 1 &amp; 2 Christmas concert</i>	<b>10:00</b>	<b>Neuadd Bryniago Mawr Hall</b>
<b>11.12.25</b>	Gwasanaeth Nadolig Bryniago Mawr <i>Christmas Service</i>	<b>17:30</b>	<b>Capel Hope-Siloh</b>



## Mae'n amser i ymaelodi â'r Urdd!



Ymuna gyda'r miloedd o blant a phobl ifanc sy'n aelodau o'r Urdd i gael mynediad at ein holl weithgareddau a digwyddiadau

Rydym yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau a chyfleoedd i'n aelodau ledled Cymru, o chwaraeon i'r celfyddydau, cystadlu, antur a chymdeithasu - mae rhywbeth i bawb!

### Pris aelodaeth 2025-26

Aelodaeth unigol: £12.50\*

Aelodaeth teulu (3 neu fwy o blant): £30

\*£1 yn unig i'r rheiny sy'n derbyn cefnogaeth ariannol drwy un o'r canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Cymorth o dan Ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
  - Eifen warantedig Credyd Pensiwn
  - Credyd Treth Plant
  - Credyd Treth Gwaith
  - Credyd Cynhwysol

<https://www.urdd.cymru/cy/ymuno/>

## It's time to join the Urdd!

Join the thousands of children and young people who are members of the Urdd to gain access to all our events and activities

We provide a wide variety of activities and opportunities for our members across Wales, from sport to the arts, competitions, adventure and socializing - there's something for everyone!

### 2025-26 Membership prices

Individual membership: £12.50\*

Family membership (3 or more children): £30

\*£1 for those receiving one of the following:

Income Support

- Income Based Jobseeker's Allowance
- Income Based Employment and Support Allowance
- Support under Part VI of the Immigration and Asylum Act 1999
- Guaranteed element of Pension Credit
  - Child Tax Credit
  - Working Tax Credit
  - Universal Credit

<https://www.urdd.cymru/en/join/>

## Ffurflen 2: Cytundeb rhiant/ gwarchodwr i'r ysgol roi meddyginiaeth

### Form 2: Parental Agreement for Education Setting to Administer Medicine

Mae angen caniatad ar YGG Bryniago i roi meddyginiaeth i'ch plentyn.

YGG Bryniago needs your permission to give your child medicine.

Cwblhewch y ffurflen hon, os gwelwch yn dda./Please complete and sign this form to allow this.



Enw'r ysgol/ Name of education setting	YGG Bryniago
Enw'r plentyn/Name of child	
Dyddiad geni/Date of birth	
Dosbarth/ Blwyddyn/ Group/class/form	
Anghenion meddygol/ Healthcare need	

### **Moddion/Medicine**

Enw/ math o feddyginiaeth (fel a nodir ar y label) Name/type of medicine (as described on the container)	
Dyddiad dosbarthu/ Date dispensed	
Dyddiad dod i ben/ Expiry date	
Dos/ Dosage and method	
Amser/Timing	
Gwybodaeth ychwanegol/ Any other information	
Oes yna unrhyw sgil effeithiau mae angen i'r ysgol i wybod amdano? Are there any side effects that the school needs to know about?	
Ydy'r plentyn yn medru cymryd y moddion heb gymorth? Self-administration?	<input type="radio"/> Ydy/Yes <input type="radio"/> Nac ydy/No
Camau i'w cymryd mewn argyfwng/ Procedures to take in an emergency	

### **Gwybodaeth cyswllt/Contact details**

Enw/Name	
Rhif ffôn/ Daytime telephone no.	
Perthynas gyda'r plentyn/ Relationship to child	
Cyfeiriad/ Address	

Deallaf bod rhaid i mi ddod a'r meddyginiaeth fy hun i'r/ o'r ysgol./I understand that I must deliver the medicine personally to/from the school.

Deallaf bod angen i mi roi gwybod am unrhyw newid i'r uchod yn ysgrifenedig./ I understand that I must notify the setting of any changes in writing.

Dyddiad/ Date \_\_\_\_ / \_\_\_\_ / \_\_\_\_ Llofnod/ Signature(s) : \_\_\_\_\_



## CAIS AM ABSENOLDEB AWDURDODEDIG/HYSBYSIAD O ABSENOLDEB YN YSTOD Y TYMOR



### Cyn gwneud cais i fynd ar wyliau yn ystod y tymor, ystyriwch y canlynol:

Mae presenoldeb isel parhaus yn ffactor a gysylltir yn aml â lefelau isel o lwyddiant academaidd, a gall gael effaith ddifrifol ar gyfleoedd yn nes ymlaen mewn bywyd. Bydd plant sy'n absennol o'r ysgol yn ystod y tymor yn colli cyfleoedd dysgu pwysig - ni ellir ailbrofi profiadau addysgol yn ddiweddarach. Ni fydd athro'ch plentyn yn gallu ailgyflwyno'r holl waith y mae eich plentyn wedi'i gollu. Oherwydd yr angen am fewnbwn gan yr athro/disgybl mewn llawer o'n profiadau dysgu, nid yw bob amser yn ymarferol i roi gwaith i chi ei gwblhau yn ystod yr absenoldeb. Fel rhiant/gofalwr, gallwch ddangos eich ymrwymiad i addysg eich plentyn drwy, lle bynnag y bo modd, osgoi absenoldebau yn ystod tymor yr ysgol. Mae'n bwysig nad yw absenoldebau yn ystod y tymor yn cyfrannu at ddatblygu arferion presenoldeb gwael sy'n anodd cael gwared arnynt yn nes ymlaen.

Ar gyfer gwyliau: Sylwer **nad oes hawl awtomatig i dynnu disgyblion o'r ysgol ar gyfer gwyliau**, ac mae'r ffurflen hon, os yw'n gais at y diben hwnnw, yn gais am ganiatâd yn unig. Ceir rhywfaint o ddisgresiwn i bennaeth gytuno ar eich cais, ac yn unol ag arweiniad cenedlaethol, caiff absenoldeb eich plentyn/plant ei farnu yn ôl ei haeddiant ac efallai **na chaiff ei awdurdodi**. Gweler polisi'r ysgol ar bresenoldeb (ar wefan yr ysgol). Cewch eich hysbysu am y penderfyniad yn fuan.

**Sylwer: Mae canllawiau LIC yn nodi na all ysgolion awdurdodi gwyliau o edrych yn ôl.**

Os bydd eich plentyn yn cronni lefel o absenoldeb anawdurdodedig sy'n arwain at bresenoldeb sy'n is na 90% yn ystod y flwyddyn, gall yr awdurdod lleol (gan ddibynnu ar yr amgylchiadau) roi hysbysiad o gosb benodol neu gychwyn erlyniad ffurfiol am beidio â sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Mae manylion llawn y cynllun cosb benodol ar gael ar wefan Dinas a Sir Abertawe.

Adran A:

RHAID I'R ADRAN HON GAEL EI CHWBLHAU GAN Y RHIANT/GOFALWR A RHAID ANFON Y FFURFLEN GAIS HON I'R YSGOL CYN GYNTED Â PHOSIB CYN YR ABSENOLDEB - YN DDELFRYDOL, PYTHEFNOS CYN HYNNY.

Enwau'r Disgyblion:

..... Dosbarth:.....

..... Dosbarth:.....

..... Dosbarth:.....

Dyddiadau absenoldeb: O.....Tan: ..... Nifer y diwrnodau absenoldeb: .....

Cyfeiriad/manylion cyswllt gwyliau (at ddibenion gweithdrefnau amddiffyn plant): \_\_\_\_\_

A oes brawd/brodyr neu chwaer/chwiorydd mewn ysgol arall a fydd hefyd yn absennol am yr un rhesymau. Os felly, nodwch enw(au) y plentyn/plant a'r ysgol: \_\_\_\_\_

Fy marn ynghylch mynd ar wyliau yn ystod y tymor, y rhesymau dros wneud hyn a'i ddiben (parhewch ar daflen ar wahân os oes angen)

\_\_\_\_\_

Llofnod: ..... Rhiant/Gofalwr Dyddiad: .....

Os nad yw'r disgybl/disgyblion yn dychwelyd erbyn y dyddiad cytunedig, mae/maent mewn perygl o golli ei le/eu lle yn yr ysgol, a gellir ei dynnu/eu tynnu o



REQUEST FOR AUTHORISED ABSENCE / NOTIFICATION OF ABSENCE DURING TERM TIME



**Before applying to take a term time absence please consider the following:**

Ongoing low attendance is a factor often linked to low levels of academic success and can have a serious impact on opportunities later in life. Children who are absent from school in term time will miss out on important learning opportunities - educational experiences missed cannot be re-captured later. Your child's teacher will not be able to go back over everything your child has missed. Due to the need for teacher/pupil input into many of our learning experiences, it is not always feasible to provide you with work to complete during the absence. As a parent/carer you can demonstrate your commitment to your child's education by, whenever possible, avoiding term time absences. It is important that term time absences do not contribute to developing poor habits of attendance which are hard to undo later on.

For holidays: Please note that **there is not an automatic right to withdraw pupils from school for a holiday** and this form, if it is a request for that purpose, is merely a request for permission. There is a margin of discretion for head teachers to agree to your request and in line with national guidance, your Child(ren)'s absence will be judged on merit and may **not be authorised**. Please see our school policy on attendance (on our school website). You will be notified of the decision shortly.

Please note: **WG guidance states that schools cannot authorise holidays retrospectively.**

Should your child accumulate a level of unauthorised absence which brings their attendance below 90% during the year, the Local Authority may (depending on the circumstances) issue a fixed penalty notice or commence formal prosecution for failing to secure regular attendance at school. The full details of the fixed penalty scheme can be found on the City and County of Swansea website.

Section A:

THIS SECTION MUST BE COMPLETED BY THE PARENT/CARER AND THIS APPLICATION FORM FORWARDED TO SCHOOL AS EARLY AS POSSIBLE BEFORE THE ABSENCE – IDEALLY AT LEAST TWO WEEKS BEFORE.

Names of Pupils:

..... Class:.....

..... Class:.....

..... Class:.....

Absence dates: From..... To: ..... Number of days absent: .....

Holiday address/contact details (for child protection procedures): \_\_\_\_\_

Is there a sibling(s) from another school who will also be absent for the same reasons. If so, please provide name of the sibling and school attended: \_\_\_\_\_

My views, reasons and the purpose for requesting a term time absence are (please continue on separate sheet(s) if required)



# Tywydd Garw

Yn ystod cyfnodau o dywydd garw (eira), gan y Pennaeth fydd y penderfyniad o gau'r ysgol. Bydd y Pennaeth yn dilyn canllawiau gweithdrefn argyfwng y sir.



Gwneir pob ymdrech i gynllunio at y diwrnod/au o flaen llaw. Danfonir **neges ar Class Dojo** at rieni i rybuddio efallai y bydd angen i'r ysgol gau petai sôn am eira yn y rhagolygon tywydd. Petai'r ysgol yn derbyn e-bost gan y sir yn rhybuddio am y tywydd garw yna danfonir y wybodaeth hyn i'r rhieni yn syth ar y diwrnod hwnnw.

Ar y diwrnod:

Gwneir pob ymdrech i agor yr ysgol. **NI FYDD CLWB BRECWAST AR GAEL AR DDIWRNOD TYWYDD GARW.**

Cedwir y llinellau cyfathrebu yn agored. Bydd y pennaeth yn cysylltu gyda rhieni drwy:

- Class Dojo
- Gwefan Dinas a Sir Abertawe

Gwneir pob ymdrech gan y pennaeth i gyrraedd yr ysgol erbyn 07:00. Bydd y Pennaeth/ Dirprwy yn gwneud asesiad risg yn gynnar iawn a hynny wedi'i seilio ar sawl ffactor a heb wybod bryd hynny sut bydd y tywydd yn datblygu yn ystod y dydd. Bydd aelodau staff yr ysgol yn gwneud hunan-asesiad o sefyllfa yr eira yn eu milltir sgwâr hwy ac yn cysylltu gyda'r pennaeth/ dirprwy ynglyn â'r posibilrwydd o gyrraedd yr ysgol.

Penderfynir os fydd yr ysgol ar agor:

- Wedi i'r pennaeth/ dirprwy ddilyn y canllawiau ym mholisi Tywydd Garw'r ysgol a chwblhau asesiad risg o'r sefyllfa.
- Os yw cogyddes yr ysgol wedi llwyddo i gyrraedd yr ysgol er mwyn cynnig cinio i'r plant.
- Os fydd digon o aelodau o staff yr ysgol ar gael (efallai bydd y gymhareb staff-disgyblion yn wahanol i'r arfer ar ddiwrnod o dywydd garw) i ofalu am y plant. Noder efallai na ellir cynnig y cwricwlwm llawn ar ddiwrnod o eira ac efallai bydd y disgyblion yn cael eu dysgu gan athrawon nad ydynt gyda'u dosbarthiadau arferol.

Efallai y rhoddir y wybodaeth i'r rhieni y bydd yr ysgol yn agor yn hwyrach yn ystod y bore er mwyn caniatáu amser i'r ffyrdd/ y sefyllfa eira i wella er mwyn i'r plant ac aelodau'r staff i gyrraedd yr ysgol. Cymerir y penderfyniad hyn wedi i bob ymdrech i agor yr ysgol ar amser fethu. Anelir i roi gwybod i rieni erbyn 07:50.

Penderfyniad y cwmnïau bysiau yw hi os ydy'r bysiau yn rhedeg fel arfer i godi'r plant ar gyfer unrhyw ymweliadau addysgiadol sydd wedi eu cynllunio ar gyfer y diwrnod.

**Petai eira yn disgyn yn ystod y dydd:**

- Ni rwystrir rhieni sydd am gasglu eu plant yn gynnar o'r ysgol.
- Bydd yr ysgol yn aros ar agor tan 3:20 OND BYDD CLYBIAU CWRICWLWM YN CAEL EU GOHURIO.
- Penderfyniad 'Pitter Patter' fydd rhedeg y Clwb terfyn dydd fel arfer neu beidio. Dylid cysylltu gyda 'Pitter Patter' am wybodaeth pellach.

**Llwybrau mynediad yn ystod tywydd garw :**

Bydd yr ysgol yn rhoi halen/ graean i greu llwybr mynediad i'r ysgol:

- O brif glwyd Bryniago Bach i'r brif fynedfa.
- O brif glwyd Bryniago Mawr i'r brif fynedfa.

# Severe Weather

During periods of inclement weather the decision to close the school remains the decision of the Head teacher. Before making a decision the head teacher will refer to the County's emergency procedure plan.



Every effort will be made to prepare for such weather before hand. The school will advise parents that the school may need to close prior to such weather conditions. If there are indications of poor weather, the school will receive weather updates via email. The school will contact the parents regarding the weather warnings via **Class Dojo**.

On the day:

Every effort will be made to open the school but **THERE WILL BE NO BREAKFAST CLUB**.

The school will communicate with the parents and staff via

- Class Dojo
- The City and County of Swansea's website

The Head teacher will make every effort to reach the school by 07:00. The Head teacher/ Deputy will make a risk assessment based on a number of factors and without at that stage knowing how the weather will progress during the day.

The staff will assess their situation and will report to the Head teacher/ Deputy whether they will be able to attend the school.

The decision regarding if the school will open or not will be made after:

- The headteacher/ deputy has followed the procedures outlined in the schools Inclement Weather policy and carried out a risk assessment of the situation
- Receiving information regarding if Catering will be available.
- Knowing if there is a sufficient number of staff in school (the staff/pupil ratio may be different on such days). Please note that the school may not be able to offer the full curriculum or that the pupils may not be able to be taught by their usual teachers.

The school may announce that it will open later than usual (during the morning). The weather situation may have eased by that time. It will also allow extra time for children and staff to make their way safely to school. The school will aim to make a decision on whether to open the school by 07:50.

The bus companies will make a decision whether they are able to run as usual should there be a pre-planned educational visit due to take place on that day.

**If it snows during the day:**

- The school will allow parents that wish to collect their child/ children from the school during the day to do so.
- The school will stay open until 3:20. PLEASE NOTE THAT THE CURRICULUM CLUBS WILL BE CANCELLED ON SUCH DAYS.

Pitter Patter will be undertaking the responsibility of whether to hold or cancel the after school club. Parents should contact Pitter Patter for further information.

**Safe pathways into school during Inclement Weather :**

The school will grit a safe route into school during inclement weather:

- From the main gate into the main entrance in Bryniago Bach.